| SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU<br>OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES | HEDDLU GOGLEDD CYMRU<br>Gogledd Cymru diogelach<br>NORTH WALES POLICE<br>A safer North Wales |
|---|---|

**Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd**

**a**

**Heddlu Gogledd Cymru**

**Trefniadau Staff**

Bwriad y Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ("Y Comisiynydd") a'r Prif Gwnstabl yw cael perthynas waith bositif er mwyn gallu darparu'r gwasanaeth gorau ar gyfer ein cymunedau. Boed rhywun yn cael eu cyflogi gan y Comisiynydd neu'r Prif Gwnstabl, bydd yr ymrwymiad i ddarparu'r Cynllun Heddlu a Throsedd yn hollbwysig.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi cydnabod y gallant, gyda'i gilydd, wneud gwahaniaeth cadarnhaol a hirdymor i Ogledd Cymru, heb gyfaddawdu dyletswydd y Comisiynydd i'r cyhoedd a heb gyfaddawdu annibyniaeth weithredol y Prif Gwnstabl.

Bydd disgwyl i staff weithio yn ysbryd y berthynas hon. Yn gyffredinol, golyga'r egwyddorion sy'n sylfaen i'r berthynas waith hon y bydd disgwyl i staff ddarparu'r gwasanaeth gorau posib i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl fel ei gilydd.

Mae'r Comisiynydd yn llawn barchu cyfrifoldebau gweithredol y Prif Gwnstabl ac, yn yr un modd, bydd y Prif Gwnstabl yn rheoli ac yn cyfarwyddo ei staff mewn modd fydd yn eu galluogi i gynorthwyo'r Comisiynydd i gyflawni eu ddyletswyddau.

**Mynediad at wasanaethau**

Gellir gweld trefniadau staffio'r Comisiynydd yma. Yn ychwanegol at hynny, mae gan yr aelodau o staff a gyflogir yn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd sef y Comisiynydd a'i staff, fynediad at y gwasanaethau hyn o fewn yr Heddlu. Mae'r rhain yn cynnwys (ond nid ydynt yn gyfyngedig i):

- adran gyfreithiol yr Heddlu
- swyddog cyswllt neilltuol ar reng Arolygydd (secondiad o'r Heddlu)
- adran adnoddau dynol yr Heddlu
- adran gyllid yr Heddlu (er mwyn gweld y protocol rhwng y Prif Swyddogion Cyllid, cliciwch yma)

- system gyflogres yr heddlu
- yr adran gaffael
- yr adran gyfleusterau a fflyd
- gwasanaethau technoleg gwybodaeth a thelegyfathrebu
- swyddfeydd o fewn Pencadlys yr Heddlu, ac ar draws yr ystâd fel y bydd ei angen